

ETHOLIADAU

Cynulliad Cenedlaethol
Cymru a Chomisiynwyr yr
Heddlu a Throseddu

5 MAI 2016

MAE DY BLEIDLAI YN CYFRI

PAID COLLI DY GYFLE



Y
Comisiwn
Etholiadol

ETHOLIADAU

Cynulliad Cenedlaethol
Cymru a Chomisiynwyr yr
Heddlu a Throseddu

5 MAI 2016

Ar **ddydd Iau 5 Mai 2016** cynhelir etholiadau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Chomisiynwyr yr Heddlu a Throsedd.

Cofrestru i bleidleisio



Mae'n rhaid i chi fod wedi cofrestru i bleidleisio erbyn canol nos Dydd Llun 18 Ebrill i gymryd rhan yn yr etholiadau hyn.

Gallwch gofrestru ar-lein yn:
gov.uk/cofrestru-i-bleidleisio

Gallwch bleidleisio yn yr etholiadau hyn os ydych yn 18 oed neu drosodd ar **ddydd Iau 5 Mai 2016**, wedi'ch cofrestru i bleidleisio yng Nghymru ac rydych:

- yn ddinesydd Prydeinig, neu
- yn ddinesydd o'r Gymanwlad sydd â chaniatâd i aros yn y DU neu sydd ddim angen caniatâd i aros yn y DU, neu
- yn ddinesydd o Weriniaeth Iwerddon, neu
- yn ddinesydd o wledydd eraill yr Undeb Ewropeaidd

Ni all dinasyddion Prydeinig sy'n byw dramor bleidleisio yn yr etholiadau hyn.

Os ydych wedi derbyn cerdyn pleidleisio yn ddiweddar, rydych wedi cofrestru i bleidleisio.

Peidiwch a'i gadael hi tan y funud olaf, cofrestrwch i bleidleisio nawr!

I gael mwy o wybodaeth ynghylch bod yn gymwys i bleidleisio neu wahanol ffyrdd o gofrestru i bleidleisio, ewch i **fymhleidlaisi.co.uk** neu ffoniwch **0800 3 280 280**

Sut i bleidleisio?

Mae tair ffordd i bleidleisio:

Yn eich gorsaf bleidleisio **ddydd lau 5 Mai 2016**

Byddwch yn derbyn cerdyn pleidleisio yn dweud wrthyach ble mae eich gorsaf bleidleisio. Does dim angen eich cerdyn pleidleisio i bleidleisio, ac os fyddwch yn ei golli neu ddim yn ei dderbyn, cysylltwch â'ch cyngor lleol i gael gwybod lle mae'ch gorsaf bleidleisio. **Mae gorsafoedd pleidleisio ar agor rhwng 7am a 10pm.**

Drwy'r post

I wneud cais i bleidleisio drwy'r post, cwblhewch ffurflen gais pleidlais bost a'i anfon at eich swyddfa cofrestru etholiadol **heb fod yn hwyrach na 5pm ddydd Mawrth 19 Ebrill 2016.**

Bydd papurau pleidleisio drwy'r post yn cael eu hanfon tua 2 wythnos cyn y diwrnod pleidleisio. Cwblhewch a dychwelwch eich papurau pleidleisio gan sicrhau eich bod yn gadael digon o amser iddynt gyrraedd **heb fod yn hwyrach na 10pm ddydd lau 5 Mai.**

Drwy ddirprwy (caniatáu i rywun yr ydych yn ymddiried ynddynt i bleidleisio ar eich rhan)

I wneud cais i bleidleisio drwy ddirprwy, cwblhewch ffurflen gais a'i anfon at eich swyddfa cofrestru etholiadol **heb fod yn hwyrach na 5pm ddydd Mawrth 26 Ebrill 2016.**

Mewn argyfwng lle na allwch fynd i'r orsaf bleidleisio'n bersonol, gallwch wneud cais am bleidlais drwy ddirprwy mewn argyfwng **heb fod yn hwyrach na 5pm** ar ddiwrnod y bleidlais – **dydd lau 5 Mai.**

Etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru bwerau i wneud cyfreithiau i Gymru ar amrywiaeth o feysydd gan gynnwys iechyd, addysg, tai a thrafnidiaeth.

Yn y Cynulliad Cenedlaethol, mae 60 o Aelodau sy'n cael eu hethol gan bobl Cymru i'w cynrychioli. Mae 40 o Aelodau yn cynrychioli etholaethau Cymru (eich ardal leol) ac mae 20 o Aelodau yn cynrychioli'r pum rhanbarth – Gogledd Cymru, Canolbarth a Gorllewin Cymru, Gorllewin De Cymru, Dwyrain De Cymru a Chanol De Cymru.

Am ragor o wybodaeth am y Cynulliad Cenedlaethol ac i weld map o'ch etholaeth neu'ch rhanbarth, ewch i **cynulliad.cymru**

Sut y gallaf bleidleisio yn etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru?

Mae'n rhaid i chi fod wedi cofrestru er mwyn gallu pleidleisio. Byddwch yn derbyn dau bapur pleidleisio fel y rhai yn y lluniau ar dudalennau 6 a 8-9. Bydd papur pleidleisio er mwyn ethol eich Aelod etholaethol a phapur pleidleisio ar gyfer ethol eich Aelodau rhanbarthol.

Y papur pleidleisio etholaeth



Defnyddiwch y papur pleidleisio hwn i bleidleisio dros ymgeisydd i gynrychioli eich etholaeth (eich ardal leol). I bleidleisio, nodwch groes (X) yn y blwch gyferbyn ag enw un ymgeisydd. Yr ymgeisydd fydd â'r nifer fwyaf o bleidleisiau fydd yn dod yn Aelod Cynulliad dros yr etholaeth honno.

Papur pleidleisio etholaeth

National Assembly for Wales election Ballot paper to elect the Assembly Member for theconstituency	Etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru Papur pleidleisio i ethol Aelod Cynulliad ar gyfer etholaeth
Vote for only one candidate by putting a cross in the box next to your choice	Pleidleisiwch ar gyfer un ymgeisydd yn unig trwy roi croes yn y blwch wrth ochr eich dewis
Candidate A - Ymgeisydd A Party A - Plaid A	<input type="checkbox"/>
Candidate B - Ymgeisydd B Party B - Plaid B	<input type="checkbox"/>
Candidate C - Ymgeisydd C Party C - Plaid C	<input type="checkbox"/>
Candidate D - Ymgeisydd D Party D - Plaid D	<input type="checkbox"/>
Candidate E - Ymgeisydd E Independent / Annibynnol	<input type="checkbox"/>
Candidate F - Ymgeisydd F Independent / Annibynnol	<input type="checkbox"/>
Candidate G - Ymgeisydd G Independent / Annibynnol	<input type="checkbox"/>

Y papur pleidleisio rhanbarthol

Defnyddiwch y papur pleidleisio hwn i bleidleisio dros blaid neu ymgeisydd unigol i gynrychioli eich rhanbarth. I bleidleisio, nodwch groes (X) yn y blwch gyferbyn ag enw un blaid neu ymgeisydd unigol. Ym mhob rhanbarth, mae pleidiau ac ymgeiswyr unigol yn ennill seddi yn seiliedig ar y canlynol:

- y nifer o bleidleisiau y maent yn eu derbyn yn y bleidlais rhanbarthol hon, a
- y nifer o seddi etholaeth y mae pleidiau/ymgeiswyr unigol yn eu hennill yn y rhanbarth.

Papur pleidleisio rhanbarth

National Assembly for Wales election Ballot paper to elect the Assembly Member for theregion		Etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru Papur pleidleisio i ethol yr Aelodau Cynulliad ar gyfer rhanbarth	
Vote only once by putting a cross in the box next to your choice	<div style="border: 1px solid black; width: 40px; height: 40px; text-align: center; line-height: 40px;">x</div>	Pleidleisiwch unwaith yn unig trwy roi croes yn y blwch wrth ochr eich dewis	<div style="border: 1px solid black; width: 40px; height: 40px; text-align: center; line-height: 40px;">x</div>
Party A – Plaid A			
1. Candidate/ Ymgeisydd	5. Candidate/ Ymgeisydd	9. Candidate/ Ymgeisydd	
2. Candidate/ Ymgeisydd	6. Candidate/ Ymgeisydd	10. Candidate/ Ymgeisydd	
3. Candidate/ Ymgeisydd	7. Candidate/ Ymgeisydd	11. Candidate/ Ymgeisydd	
4. Candidate/ Ymgeisydd	8. Candidate/ Ymgeisydd	12. Candidate/ Ymgeisydd	<div style="border: 1px solid black; width: 60px; height: 40px;"></div>
Party B – Plaid B			
1. Candidate/ Ymgeisydd	5. Candidate/ Ymgeisydd	9. Candidate/ Ymgeisydd	
2. Candidate/ Ymgeisydd	6. Candidate/ Ymgeisydd	10. Candidate/ Ymgeisydd	
3. Candidate/ Ymgeisydd	7. Candidate/ Ymgeisydd	11. Candidate/ Ymgeisydd	
4. Candidate/ Ymgeisydd	8. Candidate/ Ymgeisydd	12. Candidate/ Ymgeisydd	<div style="border: 1px solid black; width: 60px; height: 40px;"></div>

Party C – Plaid C		
1. Candidate/ Ymgeisydd	5. Candidate/ Ymgeisydd	9. Candidate/ Ymgeisydd
2. Candidate/ Ymgeisydd	6. Candidate/ Ymgeisydd	10. Candidate/ Ymgeisydd
3. Candidate/ Ymgeisydd	7. Candidate/ Ymgeisydd	11. Candidate/ Ymgeisydd
4. Candidate/ Ymgeisydd	8. Candidate/ Ymgeisydd	12. Candidate/ Ymgeisydd
<div></div>		
Party D – Plaid D		
1. Candidate/ Ymgeisydd	5. Candidate/ Ymgeisydd	9. Candidate/ Ymgeisydd
2. Candidate/ Ymgeisydd	6. Candidate/ Ymgeisydd	10. Candidate/ Ymgeisydd
3. Candidate/ Ymgeisydd	7. Candidate/ Ymgeisydd	11. Candidate/ Ymgeisydd
4. Candidate/ Ymgeisydd	8. Candidate/ Ymgeisydd	12. Candidate/ Ymgeisydd
<div></div>		
Candidate / Ymgeisydd		
Independent / Annibynnol		
<div></div>		

Etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu

Mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (CHTh) yn goruchwyllo eich heddlu lleol ac yn sicrhau eu bod yn blaenoriaethu beth sy'n bwysig i chi.

I ganfod pwy sy'n sefyll etholiad yn eich ardal heddlu chi ac i weld gwybodaeth am ymgeiswyr, ewch i **dewisfynghhth.org.uk**

O **7 Mawrth 2016** gallwch archebu llyfryn gwybodaeth ymgeiswyr i gael ei bostio atoch chi. Bydd y wybodaeth hon ar gael cyn gynted â phosibl ar ol i'r enwebiadau gau **am 4pm ar 7 Ebrill 2016**. Gallwch hefyd lawrlwytho ac argraffu llyfryn gwybodaeth ymgeiswyr o'r wefan.

Neu gallwch ffonio ein llinell gymorth ar **0800 1 07 0708** i wneud cais am lyfryn ar gyfer eich llu heddlu gael ei bostio atoch.

Am ragor o wybodaeth am rôl y CHTh, ewch i **fymhleidlaisi.co.uk**

Sut y gallaf bleidleisio yn yr etholiadau ar gyfer CHTh?

Bydd y papur pleidleisio yn rhestru'r ymgeisiwyr sy'n sefyll yn eich ardal.

Ar gyfer yr etholiad hwn, gallwch bleidleisio dros ymgeisydd dewis cyntaf ac ail ddewis i ennill.

Bydd dwy golofn wrth ymyl y rhestr o ymgeiswyr.

Papur pleidleisio Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu

Gofynnir i chi wneud y canlynol:

- pleidleisio dros eich ymgeisydd dewis cyntaf drwy nodi croes (X) yn y golofn dewis cyntaf,
- pleidleisio dros eich ymgeisydd ail ddewis drwy nodi croes (X) yn y golofn ail ddewis.

Cyhyd â'ch bod yn nodi un groes yn y golofn dewis cyntaf, caiff eich pleidlais ei chyfrif.



Os ydych wedi nodi dewis cyntaf, gallwch ddewis p'un a ydych amnodi ail ddewis ai peidio. Ond, os byddwch yn rhoi croes yn y golofn ail ddewis yn unig, ni chaiff eich pleidlais ei chyfrif.

**Election of Police and
Crime Commissioner for
..... police area**

**Ethol Comisiynydd yr
Heddlu a Throseddu ar
gyfer ardal heddlu**

.....

Vote once ☐ in column 1 for your first choice, and

Vote once ☐ in column 2 for your second choice

Pleidleisiwch unwaith ☐ yng ngholofn 1 ar gyfer eich
dewis cyntaf, a

Pleidleisiwch unwaith ☐ yng ngholofn 2 ar gyfer eich ail
ddewis

Column 1
**first
choice**
Colofn 1
**dewis
cyntaf**



Column 2
**second
choice**
Colofn 2
**ail
ddewis**



Candidate A - Ymgeisydd A
Party A - Plaid A



☐☐

Candidate B - Ymgeisydd B
Party B - Plaid B

☐☐

Candidate C - Ymgeisydd C
Party C - Plaid C

☐☐

	Column 1 first choice Colofn 1 dewis cyntaf 	Column 2 second choice Colofn 2 ail ddewis 
Candidate D - Ymgeisydd D Independent / Annibynnol	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Candidate E - Ymgeisydd E Independent / Annibynnol	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Candidate F - Ymgeisydd F Independent / Annibynnol	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

Y
Comisiwn
Etholiadol

Lluniwyd y llyfryn hwn gan y Comisiwn Etholiadol.

Mae'r Comisiwn Etholiadol yn gorff annibynnol sy'n gweithio ledled y DU.

Mae'r llyfryn hwn hefyd ar gael mewn fformatau eraill gan gynnwys Hawdd ei Ddarllen.

Ffoniwch **0800 3 280 280** am fwy o wybodaeth.

fymhleidlaisi.co.uk



@ElectoralWales



Y Comisiwn Etholiadol 2016

Y Comisiwn Etholiadol

Lluniwyd y llyfryn hwn gan y
Comisiwn Etholiadol.

Mae'r Comisiwn Etholiadol yn
gorff annibynnol sy'n gweithio
ledled y DU.

Mae'r llyfryn hwn hefyd ar gael
mewn fformatau eraill gan
gynnwys Hawdd ei Ddarllen.

Ffoniwch **0800 3 280 280** am fwy
o wybodaeth.

fymhleidlaisi.co.uk



@ElectoralWales

MAE DY BLEIDLAI YN CYFRI

PAID COLLI DY GYFLE

